Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin Diwygiedig 2018-2033

Hawdd ei Ddeall

Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol ?

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn dechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Y CDLl fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygiadau yn y Sir hyd at 2033. Bydd y CDLl yn pennu faint o dwf sydd ei angen a ble fydd y twf hwn wedi'i leoli yn y Sir.

Bydd yn ceisio gwarchod rhai ardaloedd rhag datblygu amhriodol er mwyn cynnal y dirwedd a'r amgylchedd.

Mae'r CDLl yn cynnwys dogfen bolisi o'r enw'r "Datganiad Ysgrifenedig" a mapiau sy'n darlunio beth sydd yn cael ei gynnig ac yn lle.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio ein prif nodau ar gyfer Sir Gaerfyrddin ar gyfer y cyfnod hyd at 2033.

Mae'r CDLl yn llunio dyfodol ein cymunedau tan 2033. Fe fydd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yn byw ac yn gweithio mewn Sir Gaerfyrddin well a luniwyd gan ein gweledigaeth. Dyma pam ei bod yn bwysig ein bod yn cael eich barn, eich safbwyntiau a'ch pryderon.

Sir Gaerfyrddin

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir amrywiol ble mae economi a thirwedd amaethyddol yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu â'r ardal drefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain.

Mae dwysedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn isel, sef 75.7 o bobl fesul cilometr sgwâr o'i gymharu â dwysedd poblogaeth Cymru o 140 o bobl fesul cilomedr sgwâr.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys cymysgedd o aneddiadau.

- *Trefi mawr megis Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman.*
- *Trefi llai o faint sy'n bwysig i'r gymuned a'r ardaloedd oddi amgylch.*
- *Pentrefi gwledig sydd â'u cyfleusterau a'u gwasanaethau eu hunain.*
- *Pentrefi eraill llai o faint a phentrefannau heb fawr ddim gwasanaethau.*

Proses y Cynllun Datblygu Lleol

Pynciau Cynllunio

Ynni Adnewyddadwy

Tai

Yr Iaith Gymraeg & Diwylliant

Manwerthu

Mwynau & Gwastraff

Twristiaeth & Hamdden

Yr Economi & Chyflogaeth

Yr Amgylchedd Naturiol & Adeiledig

Cyfleusterau Cymunedol

Trafnidiaeth

Sut fydd Sir Gaerfyrddin yn tyfu?

Poblogaeth ac Aelwydydd

16 i 44 mlwydd oed

31.3% Yn Sir Gaerfyrddin

35.4% Yng Nghymru

Poblogaeth dros 65 oed

23% Yn Sir Gaerfyrddin

21% Yng Nghymru

Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth o

185,610

Byddwn yn amcangyfrif faint o bobl fydd yn byw yn y Sir erbyn diwedd 2033. Wrth gyfrifo hyn byddwn yn edrych ar nifer o ffactorau megis:

- *Nifer y bobl sy'n symud i mewn ac allan o'r Sir;*
- *Cyfraddau genedigaeth a marwolaeth;*
- *Nifer y tai a adeiladwyd yn y blynyddoedd diwethaf;*
- *Cynlluniau adfywio hirdymor.*

Rydym wir eisiau ei gwneud yn haws ac yn fwy deniadol i bobl ifanc aros, byw a gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Felly, byddwn yn sicrhau bod cael mwy o dai newydd, am brisiau fforddiadwy, a mwy o gyfleoedd i gael gwaith yn lleol, yn rhan allweddol o'n Cynllun.

Tai

Bydd y CDLl yn nodi faint o dir y bydd ei angen ar gyfer tai rhwng 2018 a 2033. Bydd tir yn cael ei ddosbarthu mewn llawer o drefi a phentrefi'r Sir.

Tai Fforddiadwy

Mae Tai Fforddiadwy yn fater allweddol wrth baratoi'r CDLl. Bydd cael tai fforddiadwy yn creu cymunedau cynaliadwy a chytbwys.

Gellir darparu'r tai fforddiadwy hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd: ar safle'r datblygiad; ar safle gwahanol; neu fel cyfraniad ariannol tuag at gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal.

Yr Economi a Chyflogaeth

Creu Economi Gref a Bywiog ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Darparu tir ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth i greu swyddi a gwella sgiliau.

Ffeithiau Sir Gaerfyrddin:

Yn 2016 roedd 84,700 o bobl yn gyflogedig yn Sir Gaerfyrddin.
Roedd 72.2% o'r boblogaeth a oedd o oedran gweithio yn gyflogedig.

30%

o'r gweithlu yn gweithio mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

11.9%

o'r gweithlu yn gweithio mewn Gweithgynhyrchu.

16.4%

o'r gweithlu yn gweithio mewn Cyfanwerthu ac Adwerthu

92%

o'r busnesau yn fentrau micro

Roedd 15,200 o bobl yn hunangyflogedig yn 2015 a 2016

28%

o'r holl fusnesau eu categoreiddio fel 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota'

Mae angen i ni adeiladu economi wybodus a chreadigol trwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o ansawdd uchel, hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith.

Yr Amgylchedd

Mae gwella ansawdd yr amgylchedd yn bwysig i'n hiechyd ac ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion. Rhaid ystyried effaith datblygiad newydd ar yr amgylchedd naturiol a'i werth i ni.

Sut byddwn ni'n addasu i newid amgylcheddol?

Dylunio a chynllunio adeiladau sy'n hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy ac yn lleihau'r defnydd o ynni ble bynnag y gallwn.

Cefnogi cerdded a beicio ochr yn ochr â thrafnidiaeth gynaliadwy. Lleihau nifer y teithiau mewn ceir ble bynnag y bo modd.

Rheoli'r perygl o lifogydd mewn ardaloedd adeiledig.

Gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau a mannau gwyrdd rhag datblygu amhriodol.

Yr Amgylchedd Adeiledig

Rydym am sicrhau bod hen adeiladau Sir Gaerfyrddin yn derbyn gofal ac yn cael eu gwella i safon uchel. Dylai adeiladau newydd gael eu hadeiladu mewn modd sy'n gweddu i'w lleoliad.

Bydd polisïau'r CDLl yn gwarchod ac yn gwella ein treftadaeth adeiledig rhag datblygu amhriodol.

Twristiaeth

- *5,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn twristiaeth;*
- *£326m: Refeniw ar gyfer y Sir;*
- *2.9 miliwn: Nifer y twristiaid bob blwyddyn;*
- *92% o'r twristiaid yn dweud y byddant yn dychwelyd.*

Bydd y CDLl yn nodi polisïau sy'n cefnogi datblygiad twristiaeth yn y Sir. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar leoliad datblygiad twristaidd newydd, dyluniad unrhyw adeiladau newydd a sut maent yn effeithio ar briffyrdd neu'r dirwedd.

Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer ei heconomi dwristiaeth

"Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar ei chryfderau a'i chymeriad unigryw, sy'n cynhyrchu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gwella ei delwedd a'i henw da ac yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol."

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr â'r sir.

Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sef

80,700
Arolwg Defnydd Iaith Cymraeg 2015

20% o boblogaeth Cymru gallu siarad Cymraeg

45% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin gallu siarad Cymraeg

Cymraeg

- *Bydd y CDLl yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy sicrhau bod yna gyfleoedd am swyddi a thai i gadw siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin.*
- *Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi 5 ward cyngor cymuned lle mae 60% neu fwy o'u poblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.*

Adwerthu a Chanol Trefi

Bydd y CDLl yn ceisio datblygu canol trefi bywiog ar gyfer siopa, adloniant a hamdden.

Bydd yn hyrwyddo darpariaeth adwerthu ar raddfa fawr a bach i ddiwallu anghenion trigolion Sir Gaerfyrddin, a bydd yn diogelu rôl y prif ganolfannau adwerthu yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman.

Bydd y CDLl yn cefnogi prosiectau adfywio canol trefi trwy arwain datblygiadau i ardaloedd penodol o'r trefi.

- *Gwariwyd £75m ar ddatblygiad adwerthu Rhodfa'r Santes Catrin yng Nghaerfyrddin.*
- *Adfywio Porth y Dwyrain, Llanelli, sy'n cynnwys sinema, caffis, bwytai, bariau a swyddfeydd.*
- *Gwelwyd cryn fuddsoddi yn Rhydaman i wella golwg y strydoedd, y dirwedd a blaenau'r siopau.*

Mwynau

Mae angen ystod o fwynau ar ein cymdeithas ar gyfer nifer o ddibenion, gan gynnwys prosiectau adeiladu mawr, megis ffyrdd, adeiladau, pontydd ac ati, a bydd yr angen hwn yn parhau. Mae'r CDLl yn nodi cydbwysedd rhwng darparu cyflenwadau digonol o fwynau ar y naill law, a diogelu amgylchedd ac amwynderau trigolion Sir Gaerfyrddin rhag arferion mwynau amhriodol ar y llaw arall.

Mwynau yn Sir Gaerfyrddin

- Mae gan Sir Gaerfyrddin tua 25 o chwareli, er bod y ffigur hwn yn cael ei fonitro'n flynyddol a gall ostwng ble ceir safleoedd segur nad ydynt yn debygol o gael eu defnyddio eto;
- Ar hyn o bryd mae banc tir craig galed y Sir yn o leiaf 68 mlynedd (mae angen lleiafswm o 10 mlynedd);
- Mae'r banc tir tywod a graean gyda'i gilydd yn 18 mlynedd (mae angen lleiafswm o 7 mlynedd).

Gwastraff

Bydd y CDLl yn ceisio cyfrannu at reoli gwastraff yn gynaliadwy trwy hyrwyddo arferion ailgylchu ac ailddefnyddio, yn hytrach nag anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Bydd yn sicrhau bod yna dir ar gael ar gyfer cyfleusterau newydd er mwyn ailgylchu a phrosesu gwastraff, a bod effaith gwastraff ar yr amgylchedd ac ar iechyd dynol yn cael ei chadw mor isel â phosibl.

Yr Hierarchaeth Gwastraff

Yr opsiwn mwyaf dymunol

Yr opsiwn lleiaf dymunol

- Atal
- Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio
- Ailgylchu
- Dulliau Adfer Eraill e.e. Ynni
- Gwaredu